

PROTOCOL ARFER GORAU TPC 3A

ADOLYGU PENDERFYNIADAU

Cyflwyniad

1. Mae'r weithdrefn adolygu penderfyniadau yn berthnasol i bob math o apêl a glywir gan y Tribiwnlys/Panel Apêl:
 - Ardrethu annomestig;
 - Prisio'r dreth gyngor;
 - Atebolrwydd/gostyngiadau'r dreth gyngor; a
 - Hysbysiadau cwblhau.

Deddfwriaeth

- Rheoliad 35 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 30 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheoliad 42 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Ceisiadau

2. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i Dribiwnlys Prisio Cymru (TPC) cyn pen pedair wythnos o'r dyddiad y cyflwynir rhybudd o'r penderfyniad.
3. Gellir gwrthod cais os caiff ei wneud y tu allan i'r terfyn amser uchod.
4. Dylai pob cais am adolygiad o benderfyniad:
 - ddyfynnu'r sail neu'r seiliau perthnasol dros wneud y cais; a
 - darparu datganiad ategol rhesymegol ar gyfer y cais.
5. Bydd y cais yn cael ei gydnabod gan TPC.

Ystyried Ceisiadau

6. Bydd TPC, ar ôl derbyn y cais, yn canfod a oes sail ddilys dros adolygu.

7. Lle nad oes sail ddilys dros adolygu, bydd TPC yn ysgrifennu at y parti perthnasol yn eu hysbysu o hyn.
8. Pan fydd yn sicr bod sail dros adolygu, bydd TPC yn cyfeirio'r cais at y Tribiwnlys/ Panel Apêl i'w ystyried.

Adolygiad

9. Bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl a benodwyd i adolygu penderfyniad, cyn belled y mae'n rhesymol ymarferol, yn cynnwys yr un aelodau a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.
10. Bydd aelodau'r Tribiwnlys/Panel Apêl yn ystyried y cais ac yn penderfynu:
 - Peidio â chynnal adolygiad gan nad yw'r meini prawf perthnasol wedi'u bodloni;
 - Cynnal adolygiad a pheidio â rhoi'r penderfyniad o'r neilltu; neu
 - Cynnal adolygiad a rhoi'r penderfyniad o'r neilltu o dan law'r aelod Llywyddol.
11. Os na chaiff y penderfyniad ei roi o'r neilltu, h.y. nid ydyw wedi newid, hysbysir y partiön o'u hawl i apelio.
12. Os rhoddir y penderfyniad o'r neilltu, bydd unrhyw orchymyn a wneir o ganlyniad i'r penderfyniad gwreiddiol yn cael ei ddirymu. Bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl yn gorchymyn i'r achos gael ailwrandawriad neu ei ailbenderfynu gan yr un Tribiwnlys/Panel Apêl neu gan gyfansoddiad gwahanol o Dribiwnlys/Panel Apêl.
13. Bydd TPC yn hysbysu'r parti/partiön o benderfyniad y Tribiwnlys/Panel Apêl cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.